

Sbectrwm cyfranogiad gwirfoddolwyr – dechreuwyr trafodaeth

Mae taflen [spectrwm cyfranogiad gwirfoddolwyr](#) (eden project communities 2021) yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng gwirfoddoli ffurfiol a gwirfoddoli anffurfiol gan gynnwys enghreifftiau. Nid oes categorïau penodol, fodd bynnag mae gwirfoddoli mewn rhai cyd-destunau'n syrthio rhwng y ddwy stôl. Mewn gwirionedd, weithiau, gall gwirfoddoli 'anffurfiol' gael ei gefnogi gan fudiadau ffurfiol, cyfansoddiadol.

Mae'r daflen wybodaeth yn dangos sut y gall gweithgarwch gwirfoddoli o wahanol fathau gyd-weddu a chydweithio gan wneud yr effaith ar y cyd yn fwy na 'chyfanswm y rhannau'.

DECHREUWYR TRAFODAETH - PWRPAS

Dyluniwyd y dechreuwyr trafodaeth hyn i'ch annog chi i feddwl ymhellach am y risgiau a all fod yn gysylltiedig â gwirfoddoli. Nid ydym yn disgwyl i fywyd fod heb risgiau ond mae sut rydyn ni'n ymdrin â risg ac yn ei reoli yn un o'r pethau sy'n gwahaniaethu rhwng gwirfoddoli anffurfiol a gwirfoddoli ffurfiol.

Mae gwirfoddoli cyfrifol o unrhyw fath yn golygu ystyried lles pobl eraill – mae hyn yn cynnwys bod yn ymwybodol o niweidiau posibl neu ganlyniadau negyddol anfwriadol trwy ein gweithredoedd. Bydd sut rydyn ni'n lleihau risgiau neu'n eu rheoli yn dibynnu'n fawr ar benderfyniadau a phrofiadau personol (yn achos y mynegiannau gwirfoddoli mwyaf anffurfiol) ac ar strwythur a diwylliant sefydliadol (yn achos gwirfoddoli mwy ffurfiol).

Yn y senarios isod, yn eich barn chi, pa weithredoedd fyddai'n berthnasol ac yn gymesur yn unol â'r cyd-destun?

SENARIO ASTUDIAETH ACHOS

Bu farw gwraig Sam, Mary, 15 mis yn ôl. Roedd ef a Mary 'wedi gwneud popeth gyda'i gilydd' ac ni all ef wynebu gweithgareddau cymdeithasol ar ei ben ei hun. Mae ei lysfab yn byw tramor ac mae'n ymweld ag ef neu'n ei ffonio'n achlysurol. Mae ei gyswllt gyda'i ffrindiau mwy neu lai wedi dod i ben ac mae'n teimlo ei fod ar ei ben ei hun ac yn unig hefyd. Mae Sam wedi colli diddordeb mewn bwyd ac mae ef wedi colli gormod o bwysau. Mary oedd yn trefnu arian y cartref ac mae Sam yn cael trafferth yn cadw trefn a thalu'r biliau. Mae'r biliau diweddaraf yn cynnwys 'rhybuddion terfynol' coch.

Mae Sam wedi'i gefnogi mewn ffyrdd gwahanol gan 5 gwirfoddolwr gwahanol.

ALEX

Mae Alex yn byw drws nesaf. Mae hi wedi sylwi nad yw Sam yn treulio llawer o amser yn yr ardd bellach a'i fod yn dechrau edrych yn anniben ac yn drist. Pan fydd hi'n mynd i siopa, mae hi'n gofyn i Sam a oes angen unrhyw beth arno. Pan fydd hi'n coginio, mae hi weithiau yn gwneud mwy ac yn mynd â rhywfaint ohono i Sam.

Wrth i amser fynd yn ei flaen, mae Alex yn sylweddoli ei bod yn gwneud y mwyafrif o siopa Sam. Mae hi'n sylweddoli ei fod e'n coginio'n llai ar gyfer ei hun a'i fod yn dechrau dibynnu ar y prydau bwyd y mae hi'n eu coginio iddo. Mae hi'n ofni ei bod hi'n dod yn ofalwr di-dâl iddo ac yn meddwl a yw ei charedigrwydd hi'n gwneud iddo fod yn ddibynnol arni yn ddiangen.

Cwestiwn: Beth y dylai Alex ei wneud nawr?

AMIT

Mae Amit yn rhan o grŵp 'WhatsApp' ar gyfer y stryd y mae Sam yn byw arni. Mae ei aelodau'n defnyddio'r grŵp i gyfnewid gwybodaeth, i ofyn am gymorth neu i gynnig cymorth, ac i drefnu digwyddiadau o bryd i'w gilydd. Mae Amit yn ymwybodol nad yw Sam yn berchen ar ffôn clyfar ond mae'n sicrhau ei fod yn cadw mewn cysylltiad gydag ef. Bellach, mae

Sam yn derbyn cymorth ar gyfer torri ei lawnt, ac mae'n rhoi'r rhan fwyaf o'i gnwd afalau i Amit er mwyn iddo ei ddsbarthu i deuluoedd lleol.

Mae Amit wedi dod i gytundeb gyda Sam y bydd yn trefnu i rywun brigdorri ei goeden afalau. Mae e'n gosod neges ar grŵp Whatsapp lleol y gymdogaeth, gan gynnwys anfon neges ddilynol yn nodi bod ysgol a chyfarpar brigdorri ar gael yn y sied sydd heb ei chloi.

Y diwrnod wedyn, mae Sam yn sylwi bod drws y sied ar agor a bod rhywfaint o'r cyfarpar garddio wedi diflannu.

Cwestiwn: Beth sy'n digwydd nesaf?

JANE

Mae Jane yn gwirfoddoli ddau ddiwrnod yr wythnos yn y ganolfan gymunedol leol, sy'n cynnal siop elusen, banc bwyd, a rhaglen o weithgareddau. Mae Jane yn siarad â Sam am ddigwyddiadau'r ganolfan a'r pethau a all fod o ddiddordeb iddo neu a all fod o gymorth iddo. Wrth iddo fynychu bore coffi ar gyfer pobl weddw, mae Jane yn ei gyflwyno i bobl eraill ac yn mynd ag ef ar daith o amgylch yr ardd gymunedol.

Mae Sam yn mynychu bore coffi yn y ganolfan gymunedol leol ar gyfer pobl weddw. Mae e'n falch o weld Jane sy'n ei gyflwyno i un o'r mynychwyr rheolaidd o'r enw Nancy. Wrth i'r wythnosau fynd yn eu blaen, mae Sam yn sicrhau ei fod yn eistedd gyda Nancy – er gofid Nancy!

Mae Nancy yn cwyno wrth Jane bod Sam yn ei phoeni hi ac mae'n dweud y bydd hi'n cwrdd â'i ffrindiau yn rhywle arall os nad oes unrhyw beth yn newid.

Cwestiwn: Sut y gellir rheoli hyn?

BOB

Wrth i'r biliau nad ydynt wedi cael eu talu bentyrri, mae rhywun yn y ganolfan gymunedol yn dwyn perswâd ar Sam i gysylltu ag elusen cyngor cenedlaethol i drafod rheoli ei arian. Mae'n derbyn cymorth o ran trefnu apwyntiad gyda Bob sy'n cynnal sesiynau cyngor yn y ganolfan. Mae Bob yn helpu Sam i roi trefn ar ei flaenoriaethau ariannol ac i greu cynllun i glirio dyledion ac i gadw ar ben y sefyllfa yn y dyfodol.

Fodd bynnag, yn dilyn marwolaeth ei wraig, mae Sam wedi derbyn llythyron gan ei gyfreithiwr yn achlysurol i ddweud bod yr ewyllys yn cael ei herio gan gyn-wr Mary. Mae Sam yn aneglur o ran y goblygiadau ac yn anghofio'n llwyr i sôn wrth Bob am y sefyllfa.

Wrth i Sam dderbyn y newyddion ynghylch y taliad o blaid cyn-wr Mary mae ei sefyllfa ariannol yn newid yn sylweddol ac nid oes modd gweithredu'r cynllun y cytunwyd arno gyda Bob.

Cwestiwn: Sut y gellir sicrhau canlyniad gwell i Sam?

MO

Mae Sam wedi colli cymaint o bwysau mae'n peri gofid ac mae'n cael ei atgyfeirio ar gyfer apwyntiad ysbyty fel claf allanol ond nid oes ganddo gludiant. Mae Mo yn gwirfoddoli ar ran gwasanaeth cludo cleifion yr ysbyty lleol ac mae'n sicrhau bod Sam yn cyrraedd ei apwyntiad mewn pryd ac yn cyrraedd adref yn ddiogel.

Un diwrnod, caiff Sam ei gludo i'r ysbyty gan Mo ac mae swyddog cyswllt yn cwrdd ag ef ac yn ei dywys i'w apwyntiad. Ar y daith yn ôl, mae Mo yn ei ollwng wrth ddrws ei dŷ, gan yrru i ffwrdd ar frys er mwyn casglu ei theithiwr nesaf.

Mae Sam yn sylweddoli ar unwaith ei fod wedi gadael ei het yng nghefn y car ond nid yw Mo yn ei weld e'n chwifio er mwyn tynnu ei sylw hi. Nid oes ganddo rif cyswllt uniongyrchol ar gyfer Mo ac mae'n rhaid iddo ffonio'r ganolfan alwadau i adrodd ei het goll. Dywedodd yr ymatebwr wrtho y bydd rhywun yn cysylltu â'r gyrrwr i roi gwybod iddo ond, 24 awr yn ddiweddarach, nid yw ef wedi derbyn ymateb.

Cwestiwn: Sut ydyn ni'n datblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn?

AM RAGOR O WYBODAETH

Mae [Cynghorau Gwirfoddol Sirol](#) yn rhoi cyngor a chymorth i fudiadau gwirfoddol a mudiadau cymunedol gan gynnwys datblygu a rheoli gwirfoddoli.

Mae Hwb Gwybodaeth Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn cynnwys gwybodaeth ac adnoddau i gefnogi [gwirfoddoli](#) a [llywodraethu da](#) gan gynnwys diogelu.

Mae gwefan Gwirfoddoli Cymru www.gwirfoddolicymru.net yn cefnogi recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr.

Cynhyrchwyd gan Helplu Cymru. Mae Helplu Cymru yn gweithio gyda Chefnogi Trydydd Sector Cymru (CGGC a 19 Cyngor Gwirfoddol Sirol), Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i ddatblygu potensial gwirfoddoli i gefnogi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, Mae [tudalen Helplu Cymru](#) ar ein gwefan yn cynnwys dolenni i adnoddau, erthyglau, blogiau, ac astudiaethau achos.